

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos
am 7.00pm Nos Fercher 26^{ain} o Fehefin 2024

Agenda

1. Presennol
 2. Ymddiheuriadau
 3. Cod Ymddygiad
 4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 29-05-2024
 5. Materion yn codi o'r cofnodion
 6. Adroddiad Ariannol
 - a. Mantolen Ariannol
 7. Cofrestr Risg/Polisia
 8. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw

Cyflog	Mis Mehefin	£ 693.64
H M R C	Mis 3	£ 173.20
Wyn Lewis	Torri gwair Mai	£ 880.00
Cymen	cyfieithu Mai	£400.56
E Jones Ink PC World/Curry's		£ 123.98
Archwilio Cymru 2021-22		£235.00
Archwilio Cymru 2022-23		£200.00
Garddio ychwanegol		£789.11
 9. Ceisiadau Nawdd
 10. Prosiectau
 - i. Ysgol Y Faenol Diweddariad
 - ii. Cais gwybodaeth – Diweddariad
 - iii. Capel y Fynwent Prisio/ Cyngor am y llorio
 11. I'w trafod hefyd
Ymddiswyddiad aelod o'r I B C
- Cyng I Ellis
- a) Llwybr Llesol Penrhos Diweddariad (cyffordd Coed y Maes) (croesfan Ysbyty Gwynedd)
 - b) Adborth cyfarfod safle Maes Parcio Canolfan Penrhosgarnedd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd.
 - c) Goleuadau Nadolig Penrhosgarnedd

Cyngor Cymuned Pentir

Confodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 29^{ain} o Fai 2024

11. Presennol

Cyng L A James Cadeirydd; Cyng I Ellis; Cyng D Jones-Morris; Cyng J Pierce; a'r Cyng B Jones hefyd yn bresennol y Clerc

12. Ymddiheuriadau

Cyng J Lewis

13. Cod Ymddygiad

Cadeirydd yn datagan ei bod yn ymddiredolwraig ar Bwyllgor Rheoli y Ganolfan.
Cadarnhawyd hefyd mae yno yn cynrychioli y Cyngor mae hi a felly nad oes angen datgan buddiant

14. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 24 -04-2024

Derbynwyd eu bod yn gywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng I Ellis

15. Materion yn codi o'r cofnodion

Cadarnhawyd fod cyfarfod wedi ei gynnal ar y 9fed o Fai rhwng Cyfreithiwr Gamlins a dirprwyaeth o'r Cyngor i drafod y telerau/amodau oedd Cyngor Gwynedd yn awyddus i Cyngor Pentir eu derbyn.

'Roedd gwelliannau wedi eu cynnig i'r amodau hynny ag erbyn hyn y gwelliannau hynny wedi eu derbyn gan Cyngor Gwynedd

Mae'n ymddangos fod pethau yn symud ymlaen yn gyflym erbyn hyn a felly fel bod posib i Cyngor Gwynedd ddechrau ar y gwaith o addasu y maes parcio mor fuan a phosib gofynwyd i'r Clerc gadarnhau yn enw'r Cadeirydd derbyn y telerau gan ychwanegu

a. bod arwydd yn cael ei osod yn enw Cyngor Gwynedd a Cyngor Pentir mewn lle amlwg ar pa amseroedd mae'r drwydded yn weithredol

b. Bod cyfle i ail-edrych ar y sefyllfa yn Mis Medi cyn i'r Ysgol ail gychwyn

Unwaith bydd y telerau hyn yn gynnig gyfreithiol terfynnol bydd angen eu arwyddo a chadarnhau hynny hefo'r Pwyllgor Rheoli

16. Adroddiad Ariannol

i. Mantolen Ariannol

'Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu yn dangos £28,554.60 yn y cyftri Cyfredol a £40,981.38 yn y Cyfrif Cadw

17. Cofrestr Risg/Polisia

Trafodwyd fod Cais wedi ei dderbyn dan ddeddf datgan Rhyddid Gwybodaeth a bod y Cyngor oherwydd sawl rheswm wedi methu ymateb mewn pryd a bod yr achos wedi ei gyfeirio i Swyddfa y Comisynydd Gwybodaeth

Bu'r Cyng L A James mewn cyswllt a'r swyddfa yn cyflwyno ein achos a chael ar ddeallt bod elfennau/catagoria nad oes rhaid eu datgelu

18. Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw Argymhellwyd talu'r canlynol

Cyflog Mis Mai £ 693.64 H M R C Mis 2 £ 173.20

Gareth Hughes Gosod Panel Hanes £118.48 Wyn Lewis Torri gwair Ebrill £ 840.00

Cymen cyfieithu Ebrill £179. 12 Talu'r Clerc Cartridge People Toner i'r llungopiwr £ 75.79

19. Ceisiadau Nawdd

Eisteddfod Gdeirioln Dyffryn Ogwen Argymell cyfrannu £300

Parchu Pentir Caisa r gyfer adnewyddu bocsus blodau oedc hwn a bu tarfodaeth oherwydd hefyd fod wedi gwneud cais i'r Cyngor yma eu mabwysiadu

Eglwys St Cedol at dori'r fynwent Cais yma hefyd wedi bod o'n blaen i'w drafod
ond y gwaith bellach wedi eii gwblhau gan gcontractwyr

Argymell cyfrannju £300 ar gyfer tacluso y fynwent yn unig

20.Prosiectau

1. Ysgol Y Faenol Diweddariad Cyfreithiol Gweler dan 5
- 2) Cais gwybodaeth – Cadeirydd Pwyllgor Rheoli
Cais wedi ei dderbyn gan Gadeirydd y Ganolfan ynglyn a'r Cyngor Cyfreithiol
oedd wedi ei drafod yn y Cyngor Llawn
Cadeirydd am anfon allan at bawb
- 3) Costau Yswirio y Ganolfan Cais wedi ei dderbyn am fwy o wybodaeth
manyion am y ganolfan
- 4) Capel y Fynwent Prisio/ Cyngor am y llorio Clerc wedi gofyn am
gyngor a prisiau gan ddau gwmni lloriau ond dim ond un eodd wedi ymateb ag
wedi rhannu esiamplau
**Argymell esiampl i'r Cyngor llawn gyda'r gobaith y byddai amcanbris erbyn
hynny**

_11 I'w trafod hefyd

Bocus Bloda - ail blanu Costau + Llafur

Mae 2 focs blodau wrth fynediad Ysbyty Gwynedd wedi eu adnewyddu ond y contractwr yn
adrodd fod popeth o blanhigion a compost a llafur yn golygu cost oddeutu £175 - £190 y bocs
2 Focs arall yn Caerhun oedd wir angen sylw eleni a hynny yn weddol sydyn oherwydd prinder
planhigion amser yma o'r flwyddyn

Argymell bod y contractwr yn cario mlaen

F O I Traborth Gweler dan 7

Lampau Stryd Penrhos a goleuadau Nadolig

Trafodwyd y byddai peidio a chlystyru gormod o gwmpas mynediad Ysbyty Gwynedd o fuff i'r
gymuned ehangach a felly ystyried eu gosod bob yn ail lamp stryd neu bob tri yn fwy teg

**Clerc i holi Cyngor Gwynedd am fap fyddai yn dangos y lampau o Capel Graig i Ffin Pentir a
Dinas Bangor**

Er gwybodaeth adroddodd y Clerc iddo fynychu cyfarfod Blynyddol Canolfan Glasinfryn a'u bod
yn chwilio am Gadeirydd ond y Dryoryddes wedi cytuno i wneud y swydd dros dro
Cafwyd cyflwyniad gan y Cyng Dafydd Meurig ar ran Ynni Ogwen yn cynnig y cynllun Heuldro allai
fod o fudd i'r Ganolfan i arbed costau ynni

**Y ganolfan am ystyried yn ogystal a Ynni Ogwen i weld os byddai'r fenter yn werth am arian Y
cyfan fyddai angen o Cyngor Pentir fyddai y caniatad i ddefnyddio y to**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.35